**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref:

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

23 Chwefror 2017

**Annwyl Simon**

**GWRANDAWIAD CYN PENODI – YR YMGEISYDD A FFEFRIR AR GYFER SWYDD CADEIRYDD AWDURDOD CYLLID CYMRU**

Diolch ichi am eich adroddiad 'Gwrandawiad cyn penodi – yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Cadeirydd Awdurdod Refeniw [sic] Cymru'. Roeddwn yn gwerthfawrogi cael gweld y ddogfen cyn ei chyhoeddi a nodais gynnwys yr ail gasgliad. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad swyddogol ynghylch y penodiad maes o law.

O ran casgliad cyntaf yr adroddiad, mae adran 5 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn datgan na chaiff cyfnod swydd anweithredol yn yr Awdurdod fod yn hwy na 5 mlynedd, ac y caniateir ailbenodi unwaith yn unig. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cyfnod posibl o 10 mlynedd ar y mwyaf. Yn yr achos hwn, cynigir y swydd am gyfnod o 3 blynedd, felly'r cyfnod hiraf posibl ar gyfer y cadeirydd penodol hwn fydd 8 mlynedd. Byddaf yn sicrhau bod y telerau a'r amodau yn gwneud hyn yn amlwg.

Byddwn yn fwy na pharod i drafod y gwelliannau arfaethedig yr ydych yn eu crybwyll ac rwyf yn croesawu unrhyw sylwadau ac adborth sydd gennych chi a'ch aelodau ynghylch y gwrandawiad.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AC/ AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cabinet Secretary for Finance and Local Government